

# Stori Olivia – Pecyn Addysgol Diogelwch Gyrrwyr Ifainc

Annwyl Riant/Gofalwr,

Mae eich Swyddog Heddlu Ysgolion yn ymweld ag ysgol eich plentyn yn rheolaidd. Yn ogystal â darparu cyngor a phlisma ysgol cefnogol, mae eich Swyddog hefyd yn cyflwyno gwersi i blant yn y dosbarth er mwyn helpu i gadw plant a phobl ifainc yn ddiogel.

Mae pobl ifanc yng Nghymru (16-24 oed) yn anghymesur o debygol o gael eu hanafu mewn damweiniau ffordd. Maent yn cyfrif am 11 y cant o'r boblogaeth ond yn anffodus yn 22 y cant o'r holl anafusion. Yn ystod 2020 bu cyfanswm o 6 marwolaeth lle roedd gyrrwr ifanc naill ai wedi cyfrannu neu achosi gwrthdrawiad angheuol yng Ngogledd Cymru. Gwelodd hyn gynydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn 2019.

Mae gyrru dan ddylanwad alcohol a goryrru'n gysylltiedig â rhai o'r gwrthdrawiadau yma yng Nghymru. Mae ffactorau cyfrannol eraill yn cynnwys methu â barnu llwybr a chyflymder eraill a sylw'n cael ei dynnu o fewn y cerbyd.

Yn dilyn gwrthdrawiad traffig y ffyrdd trasig yng ngogledd Cymru lle colodd Olivia Alkir ei bywyd ym mis Gorffennaf 2019, daeth Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân Cymru at ei gilydd i ariannu datblygu cyflwyniad diogelwch Gyrrwyr Ifainc newydd, wedi'i anelu at flynyddoedd 12 a 13 mewn ysgolion a Cholegau Addysg Bellach.

Mae 'Prosiect Olivia', sy'n cynnwys ffilm addysgiadol 15 munud am y digwyddiad hwn, yn anelu i dynnu sylw at ganlyniadau'r 5 Angheuol.

Mae'r cyflwyniad hefyd yn edrych ar addysgu pobl ifainc i baratoi'n well wrth yrru ceir; i ddeall fod gan rai gweithredoedd ganlyniadau difrifol a deall y gyfraith mewn perthynas â throeddau gyrru.

Treialwyd y wers mewn nifer o ysgolion yn ddiweddar, ac roedd yr athrawon yn teimlo bod y pwnc wedi'i drin yn sensitif. Yn ogystal, mynegodd y disgyblion fod y wers yn bwysig iawn ac yn hynod berthnasol ar gyfer eu cadw'n ddiogel.

Dywedodd un disgybl: *"Addysgiadol, agoriad llygad a gwrs dda iawn. Dysgodd bawb ohonom i fod yn ddiogel wrth yrru a gwrthod pwysau gan gyfoedion!"*

Dywedodd athro: *"Dangoswyd emosiwn gwirioneddol yn y ffilm hon gan mai pobl go iawn oeddent, ac nid actorion yn chwarae rôl."*

Ysgrifennaf i'ch hysbysu bod ysgol eich plentyn wedi gofyn i'r Swyddog Heddlu Ysgolion lleol gyflwyno'r wers i ddisgyblion blynyddoedd 12 a 13. Gan fod y pwnc yn fater sensitif, cysylltwch â'r ysgol os oes gennych unrhyw wybodaeth sydd angen ei rhannu a'i thrafod cyn ymweliad y Swyddog Heddlu os gwelwch chi'n dda.

Yn gywir,

Mannon Williams

Anna Mitchell

*Cydlynwyr Cyswllt Ysgolion*

*Heddlu Gogledd Cymru*

**SchoolBeat.cymru**



Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru  
South Wales  
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Gogledd a Gorllewin Cymru  
North and West Wales  
Fire and Rescue Service

*Olivia*

